# Hysbysiad i Forwyr
## ADCP Metforol Bae Caernarfon
## Cyngor i Gychod a Chyngor Diogelwch Cyffredinol

**Scottish Power Energy Networks Plc a National Grid Electricity Transmission Plc**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Hysbysiad:** | 29/08/2025 |
| **Rhif yr Hysbysiad:** | WL2_002_2025 |
| **Cyhoeddwyd gan:** | Blackhall & Powis |
| **Yr Ardal Weithredu:** | Bae Caernarfon |
| *Mae'r cyfesurynnau ar gyfer y gweithgareddau wedi'u nodi isod.* | |

**<u>Prosiect Western Link 2</u>**

Hysbysir morwyr y bydd Fugro, ar ran Western Link 2 (WL2), yn cynnal ymgyrch mesur metforol, gan osod offer ar wely'r môr. Bydd data'n cael ei gasglu drwy ddefnyddio Proffiliwr Cerrynt Doppler Acwstig (ADCP) ychydig y tu hwnt i Derfyn Harbwr Caernarfon.

Mae Scottish Power Energy Networks Plc a National Grid Electricity Transmission Plc yn datblygu dau gysylltiad trawsyrru trydan Cerrynt Union Foltedd Uchel (HVDC) fel rhan o brosiect cebl tanfor Western Link 2 (WL2). Bydd gan y cebl ddau bwynt glanio yn yr Alban cyn rhedeg i'r de drwy Fôr Iwerddon i fan glanio yng Ngogledd Cymru.

Bydd prosiect WL2 yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni targedau allyriadau carbon sero net Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Bydd yn gwella diogelwch ynni ac yn cynyddu capasiti'r DU yn sylweddol ar gyfer pŵer adnewyddadwy glân a gwyrdd.

**<u>Disgrifiad o'r Arolwg</u>**

Disgwylir y bydd y gwaith o osod ffrâm yr ADCP metforol ar wely'r môr ar gyfer WL2 yn dechrau ar 05/09/2025, yn amodol ar y tywydd. Disgwylir i'r ffrâm ADCP ar wely'r môr gael ei nôl erbyn 20/10/2025, yn amodol ar y tywydd. Mae'r ffrâm ADCP wedi'i thrymhau ac mae synwyryddion wedi'u gosod ynddi; bydd yn eistedd yn oddefol ar wely'r môr i gasglu data amgylcheddol. Bydd yn cael ei lleoli ym Mae Caernarfon, ychydig y tu hwnt i ffin yr harbwr. Bydd yr ADCP yn casglu proffiliau cerrynt, tyrfedd a mesuriadau tymheredd ym mhob safle lle caiff ei ddefnyddio.

Dangosir y maes gwaith sy'n ymwneud â'r Hysbysiad hwn i Forwyr yn **Ffigur 1** ac mae manylion a safle'r ADCP i'w gweld yn **Nhabl 1**. Mae **Ffigur 2/Tabl 2** yn rhoi manylion y cychod cymorth. Bydd y gwaith paratoi yn digwydd ym Mhorthladd Caergybi.

## Ffigur 1: Gosod ADCP ym Mae Caernarfon




© British Crown and OceanWise, 2025. All rights reserved. license No. EMS-EK001-07206926. Not to be used for Navigation.



ADCP Deployment Points

**CLIENT**
XODUS - WESTERN LINK 2

**PLAN TITLE**
ADCP DEPLOYMENT LOCATIONS - 3

| Rev | Date | Rqst | Drwn | Chkd | Appd |
|---|---|---|---|---|---|
| R1 | 22.08.25 | TF | NS | TF | |
| R2 | | | | | |
| R3 | | | | | |
| R4 | | | | | |

Date: 22/08/2025 | Scale @ A3: 1:200,000

Ground Floor | 144 West George Street | G2 2HG | Tel: +44 (0)141 433 7371 | www.blackhallpowis.com

**<u>Proffiliwr Cerrynt Doppler Acwstig (ADCP) Metforol</u>**

**Tabl 1: Manylion a Safle'r ADCP**

<table>
<tr><td colspan="3">ADCP metforol</td></tr>
<tr><td>Offer</td><td colspan="2">
</td></tr>
<tr><td>Nodweddion a Pharamedrau Data a Fesurir</td><td colspan="2"><ul><li>Gosodir ar wely’r môr</li><li>Proffiliwr cerrynt</li><li>Tyrfedd</li><li>Tymheredd a Gwasgedd</li><li>Goleddf</li><li>Lleoliad GPS</li><li>Mecanwaith Rhyddhau Fflôt</li><li>Dimensiynau’r Ffrâm ADCP ar Wely'r Môr<ul><li>Diamedr: 1.7m</li><li>Uchder: 0.6m</li><li>Pwysau: 400kg</li><li>Hynofedd: 80kg</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>Lleoliad</td><td colspan="2">Bae Caernarfon: Tua 12 km i'r gorllewin o Gaernarfon</td></tr>
<tr><td>Lleoliad y Safle Gwaith: Gradd Degolyn Munudau (DDM)</td><td>Lledred</td><td>Hydred</td></tr>
<tr><td>ADCP 3</td><td>53° 05.100' N</td><td>004° 32.700' W</td></tr>
</table>

## Manylion y Cwch Cymorth

Mae’r gwaith arolygu morol ar gyfer WL2 yn cael ei wneud gan Fugro gyda’r cwch cymorth ‘CT Barnston.’

**Ffigur 2: Disgrifiad o’r Cwch Cymorth**

| CT Barnston | | |
|---|---|---|
|  | **Arwydd Galw:** | **MLZU5** |
| | **MMSI:** | **235100118** |

**Tabl 2: Manylion Cyswllt y Cwch Cymorth**

| ENW’R CWCH – CT Barnston | |
|---|---|
| **Capten** | Michael Castermans |
| **Cyfeiriad E-bost y Cwch** | barnston@carmet.co.uk |
| **Rhif Cyswllt y Cwch** | +44 7845 847176 |
| **Sianel VHF** | 16 |

## Swyddogion Cyswllt Pysgodfeydd

Blackhall & Powis Ltd fydd yn cydlynu’r cyswllt pysgota ar gyfer y gweithrediadau. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch pysgodfeydd masnachol, cysylltwch â’r Tîm Cyswllt Pysgodfeydd a restrir isod.

| Enw | Rhif Cyswllt | E-bost |
|---|---|---|
| **Tommy Finn**<br>Swyddog Cyswllt Pysgota’r Cwmni | 07787 503119 | Tommy.Finn@blackhallpowis.com |
| **Douglas Brander**<br>Swyddog Cyswllt Pysgodfeydd | 07307 195830 | Douglas.Brander@blackhallpowis.com |

| | | |
|---|---|---|
| **Eva Purfit**<br>Rheolwr Gweithrediadau | 07827 627464 | Eva.Purfit@blackhallpowis.com |

**Cynrychiolydd y Diwydiannau Pysgota**

Bydd Cynrychiolydd y Diwydiannau Pysgota lleol hefyd ar gael i gysylltu â'r cychod a gweithrediadau pysgota yn ardal yr arolwg.

| Enw | Rhif Cyswllt | E-bost |
|---|---|---|
| **Jason Thomas** | 07788 820635 | southquayshellfish@hotmail.co.uk |

**Cyngor Diogelwch Cyffredinol**

Bydd gallu'r cwch i symud yn gyfyngedig, a bydd yn arddangos goleuadau a siapiau priodol a ragnodir gan y Rheoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr. Gofynnir i gychod eraill gadw o leiaf 500m oddi wrth y cwch arolygu yn ystod gweithrediadau morol, a phasio ar gyflymder diogel. Bydd Negeseuon Diogelwch Rheolaidd yn cael eu cyhoeddi ar Sianel 16 VHF a bydd y Sianel hon bob amser yn cael ei monitro gan y cwch. Bydd y cwch hefyd yn trosglwyddo Negeseuon System Adnabod Awtomatig (AIS) yn rheolaidd

**Hysbysiad Cyfreithiol**

Dylid trin yr Hysbysiad hwn i Forwyr fel hysbysiad swyddogol o natur, hyd a lleoliad y gwaith arfaethedig. Yn ystod cyfnod yr hysbysiad hwn, gofynnwn i chi gynllunio eich gweithgareddau o amgylch ein gweithgareddau dros dro tymor byr.